GIG

*Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol*

# Dechrau rhoi therapi ailgyflenwi hylif i bobl sydd ag anafiadau difrifol cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i'r cyhoedd

Ionawr 2004

**Dechrau rhoi therapi ailgyflenwi hylif i bobl sydd ag anafiadau difrifol cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty**

**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sydd wedi cael triniaeth am anafiadau sydd wedi achosi gwaedu difrifol, eu teuluoedd a'u gofalwyr a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Ionawr 2004
**Dyddiad adolygiad:** Ionawr 2007

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0432. Mae fersiwn Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0431. Mae arfarniad technoleg NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno, *Pre-hospital initiation of fluid replacement therapy in trauma*, ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk/TA074guidance). Mae fersiwn byr o'r arweiniad ('canllaw cyfeirio cyflym') hefyd ar gael ar y wefan (www.nice.org.uk/TA074quickrefguide) ac o Linell Ymateb y GIG hefyd, rhif cyfeirnod N0430.

---

**Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol**

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-510-4

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Ionawr 2004
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argreffir yn ôl y galw

© Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Ionawr 2004. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw arweiniad NICE? | 4 |
| Beth yw ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol (IV)? | 5 |
| Beth mae NICE wedi ei argymell ar gyfer ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol cyn cyrraedd yr ysbyty? | 7 |
| A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad? | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

# Beth yw arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r GIG. Mae'n cynhyrchu arweiniad (argymhellion) ar ddefnyddio meddyginiaethau, offer meddygol, profion diagnostig a gweithdrefnau clinigol a llawfeddygol o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr.

I gynhyrchu'r arweiniad hwn, mae NICE yn ystyried pa mor dda y mae'r feddyginiaeth, yr offer neu'r weithdrefn yn gweithio a hefyd pa mor dda y mae'n gweithio o'i gymharu â'r gost. Gelwir y broses hon yn arfarniad. Mae'r broses o arfarnu yn cynnwys gweithgynhyrchydd y feddyginiaeth neu'r offer y llunnir yr arweiniad ar ei gyfer, a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y cleifion a'u gofalwyr y bydd yr arweiniad yn effeithio arnynt.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael am ddechrau ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol ar gyfer pobl sydd ag anafiadau difrifol cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty. Gofynnwyd i NICE ddarparu arweiniad a fyddai'n helpu’r GIG yng Nghymru a Lloegr i benderfynu pryd y dylid dechrau ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol cyn i’r sawl a anafwyd gyrraedd yr ysbyty.

# Beth yw ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol?

Bydd pobl a gaiff eu hanafu mewn damwain neu drwy drais yn aml yn colli llawer o waed. Y gair meddygol am y math hwn o anaf yw trawma. Pan gollir llawer o waed, efallai nad oes digon ar ôl i barhau i gylchredeg o amgylch y corff i'r organau hanfodol megis y galon a'r ymennydd. Golyga hyn na fydd digon o ocsigen a maethynau yn cyrraedd yr organau er mwyn iddynt weithio'n gywir. Os na chaiff y gwaed a gollwyd ei ailgyflenwi'n gyflym, gallai hyn niweidio'r organau yn barhaol, a gallai'r person hwnnw farw.

Un ffordd o ailgyflenwi gwaed a gollwyd a chael y gwaed i gylchredeg unwaith eto yw rhoi hylif yn uniongyrchol i'r person drwy wythïen (sef pibell waed sy'n cario'r gwaed yn ôl i gyfeiriad y galon). Gelwir hyn yn ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol (neu IV yn fyr). Yn gyntaf, gaiff nodwydd a elwir yn ganwla ei gosod mewn gwythïen – yn aml ar du mewn y fraich. Yna, caiff tiwb sy'n arwain i fag o hylif ei gysylltu i'r canwla, a chaiff y bag ei godi fel bod yr hylif yn llifo'n raddol i'r wythïen.

Gellir defnyddio gwahanol fathau o hylif ar gyfer ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol. Gelwir un math yn sylweddau crisialaidd, sef siwgr neu halen wedi eu toddi mewn dŵr. Math arall yw sylweddau coloidaidd, sy'n cynnwys startsh neu sylweddau eraill.

Pan fydd criw ambiwlans neu feddyg yn cyrraedd damwain neu ddigwyddiad treisgar, rhaid iddynt benderfynu pa driniaeth sydd ei hangen ar bob person sydd wedi ei niweidio ar unwaith. Efallai na fydd yn bosibl dechrau ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol ar unwaith. Un rheswm am hyn yw y gallai'r broses o osod y system ailgyflenwi hylif achosi oedi wrth geisio cael y person i'r ysbyty. Un arall yw y gallai'r hylif waethygu'r gwaedu drwy leihau gallu'r gwaed i geulo, neu drwy symud clotiau sydd wedi ffurfio eisoes.

Mae NICE wedi edrych ar y dystiolaeth am ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol ac wedi llunio arweiniad i helpu staff gofal iechyd i benderfynu a ddylid dechrau'r broses cyn gynted â phosibl, neu aros nes y bydd y person yn cyrraedd yr ysbyty a chael llawdriniaeth i atal y gwaedu a thrin yr anafiadau.

## Beth mae NICE wedi ei argymell am ddechrau ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol cyn cyrraedd yr ysbyty?

Yn ystod yr arfarniad, darllenodd a chlywodd Pwyllgor Arfarnu NICE dystiolaeth gan:

- astudiaethau o safon uchel am ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol
- meddygon sy’n meddu ar wybodaeth arbenigol o ddefnyddio therapi ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol i drin pobl sydd wedi colli gwaed oherwydd anafiadau
- sefydliadau sy’n cynrychioli barn pobl a gaiff eu heffeithio gan yr arweiniad (am eu bod yn gweithio yn y GIG ac yn cymryd rhan mewn darparu gofal ar gyfer pobl ag anafiadau difrifol)
- gweithgynhyrchwyr hylifau mewnwythiennol.

Crynhoir y dystiolaeth yn yr arweiniad llawn (gweler y manylion ar y diwedd). Rhoddir mwy o wybodaeth am yr astudiaethau yn yr adroddiad asesu ar gyfer yr arfarniad hwn (gweler y manylion ar y diwedd).

Gwnaeth NICE yr argymhellion canlynol ynglŷn â rhoi therapi ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol i bobl sydd ag anafiadau cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty. Dosbarthwyd yr argymhellion i'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol ar gyfer oedolion a phlant hŷn, ond nid yw'n berthnasol os mai anaf i'r pen yw'r unig anaf ac nad oes unrhyw waedu i'w weld.

Ni ddylid rhoi hylif yn fewnwythiennol i berson sydd wedi ei anafu cyn iddo gyrraedd yr ysbyty os gellir teimlo pŵls yn ei arddwrn. Mae gwirio pŵls yn yr arddwrn (y term meddygol am hyn yw pŵls radiol) yn ffordd gyflym a syml o asesu a yw'r gwaed yn cylchredeg o amgylch y corff. Os oes gwaedu o'r cefn, y frest neu'r abdomen, wedi ei achosi er enghraifft gan gyllell neu wydr, dylai'r criw ambiwlans wirio pŵls gwahanol – y pŵls canolog, a gaiff ei deimlo yn y gwddf. Dylid rhoi hylif yn fewnwythiennol os na ellir teimlo'r pŵls. Dylai'r person gael hyd at 250 ml o hylif ar y tro. Ar ôl pob dogn, dylid gwirio'r pŵls, a rhoi dogn arall os na ellir teimlo'r pŵls o hyd.

Dywed NICE, os rhoddir hylif yn fewnwythiennol, y dylai staff yr ambiwlans ystyried dechrau rhoi therapi ailgyflenwi ar y ffordd i'r ysbyty. Ni ddylai'r broses o ddechrau ailgyflenwi hylif achosi oedi wrh fynd â'r person i'r ysbyty. Pan roddir hylif mewnwythiennol cyn i'r person a anafwyd gyrraedd yr ysbyty, dylid defnyddio sylweddau crisialaidd fel arfer.

Dywed NICE nad oes digon o dystiolaeth iddo allu gwneud argymhellion ar roi hylif yn fewnwythiennol i fabanod a phlant bach cyn cyrraedd yr ysbyty. Cytuna'r rhan fwyaf o feddygon na ddylid dechrau therapi ailgyflenwi hylif yn fewnwythiennol os bydd yn achosi oedi wrth gael y plentyn i'r ysbyty.

Dim ond staff sydd wedi cael hyfforddiant arbennig mewn technegau a elwir yn ofal cymorth bywyd uwch a gofal cyn cyrraedd yr ysbyty ddylai roi hylif yn fewnwythiennol i bobl sydd wedi eu hanafu cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty. Parafeddygon neu feddygon yw'r staff hyn fel arfer.

## A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad?

Bydd. Caiff yr arweiniad ei adolygu ym mis Ionawr 2007.

## Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth bellach am NICE a'r arweiniad llawn ar ddechrau therapi ailgyflenwi hylif mewn trawma cyn cyrraedd yr ysbyty a gyhoeddwyd i'r GIG ar gael ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Mae'r adroddiad asesu, sy'n cynnwys manylion yr astudiaethau a ystyriwyd, hefyd ar gael o wefan NICE. Mae fersiwn byr o'r arweiniad ('canllaw cyfeirio cyflym') hefyd ar gael ar y wefan (www.nice.org.uk/TA074quickrefguide) a gan Linell Ymateb y GIG (rhif cyfeirnod N0430).